**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

# CYFARFOD CABINET: 24 CHWEFROR 2020

---

## CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSCA) CAERDYDD 2022-2032

## ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

**EITEM AGENDA:5**

---

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

Diben yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft a cheisio caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno'r CSCA terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gwblhawyd.

**Cefndir**

1. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (y cyfeirir atynt wedi hyn fel CSCA) (Cymru) 2019 yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol baratoi Cynllun deng mlynedd, fydd yn dod i rym o 1 Medi 2022, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

2. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, a thrwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg bydd pob plentyn yn cael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

3. Ystyriwyd y datganiad CSCA 2022-2031 drafft yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Hydref 2021, gan awdurdodi swyddogion i fynd ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar gynnwys y drafft a chyflwyno’r canlyniad i'r Cabinet ym mis Ionawr cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4. Mae Rheoliad 9 o Reoliadau CSCA 2019 a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar CSCAau Ionawr 2021 yn nodi'r cyrff y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â hwy. Mae'n nodi y dylid ymgynghori â'r cyhoedd a

rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys Aelodau etholedig, ysgolion, rhieni, disgyblion, y sefydliadau partner perthnasol a phartïon â diddordeb) cyn cyflwyno'r Cynllun i Weinidogion.

**Materion**

5. Mae'r ymgynghoriad wedi llywio'r drafft terfynol a gynigiwyd i'r Cabinet. Darperir crynodeb o ymatebion y randdeiliaid fel y nodir yn Atodiad 2. Mae angen cytuno ar y CSCA i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

**Y Broses Ymgynghori ar y CSCA**

6. Ymgynghorwyd ar CSCA Caerdydd am wyth wythnos rhwng 15 Hydref a 13 Rhagfyr.

7. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein i raddau helaeth drwy dudalen we i gynnal y cynllun drafft ochr yn ochr ag ymgynghoriad Strategaeth 5 Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog.

8. Er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael yn hawdd mewn un lle a bod gan randdeiliaid un lle penodol i gyfeirio ato mewn perthynas â'r CSCA 2022-31 drafft, rhoddwyd fersiwn 'gryno hawdd ei deall' a'r dogfennau Llwybr Twf i gyd ar y dudalen we ynghyd ag arolwg ar-lein i gasglu barn partïon â diddordeb.

9. Bu swyddogion yn monitro lefelau ymateb ac yn ceisio ymgysylltu â grwpiau llai cynrychioliadol drwy anfon negeseuon e-bost wedi'u targedu at gynrychiolwyr cymunedol a chysylltiadau rhwydwaith. Ceisiodd y broses hon ennyn adborth gan gynulleidfa ehangach fel y gallai'r cynllun adlewyrchu uchelgais y Cyngor i symud oddi wrth y status quo a sicrhau bod y Gymraeg yn iaith i'w holl ddinasyddion.

10. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n helaeth drwy dîm cyfathrebu'r Cyngor gyda negeseuon cyfryngau cymdeithasol rheolaidd wedi'u targedu i annog pobl i ddilyn y dolenni i'r dudalen we er mwyn cael golwg ar yr holl ddogfennau perthnasol.

11. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y CSCA drafft llawn, y fersiwn gryno hawdd ei deall a'r Llwybr Twf) a thudalen we'r arolwg hefyd i randdeiliaid statudol a enwyd yn y canllawiau, yn eu gwahodd i ymateb gan gynnwys pob aelod etholedig, ysgolion, sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg a Phanel Ieuenctid Caerdydd.

12. Cynhaliwyd arolwg rhyngweithiol 'Sgwrs Fawr y Gymraeg' i ddisgyblion ar-lein oedd yn agored i bob plentyn a pherson ifanc oed cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd, wedi'i hyrwyddo drwy ysgolion, ar 10 Rhagfyr 2021.

13. I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad i lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.

**Ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud â’r cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori**

14. Derbyniwyd 3,248 o ymatebion i gyd i CSCA 2022-31 drafft Caerdydd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys 584 o ymatebion i'r arolwg ar-lein a 9 ymateb dros e-bost. Cyfrannodd 2,656 o Blant a Phobl Ifanc eu barn ar y defnydd o'r Gymraeg mewn addysg a chyfleoedd dysgu anffurfiol yng Nghaerdydd drwy’r 'Sgwrs Fawr y Gymraeg'.

15. Mae'r manylion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a’r atodiadau yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys yr arolwg i randdeiliaid ehangach, ymatebion ffurfiol a gyflwynwyd drwy e-bost a'r safbwyntiau a fynegwyd wrth ymgynghori â disgyblion.

16. Mae modd gweld crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid sy’n nodi’r prif faterion a godwyd, ynghyd â gwerthusiad o’r farn a fynegwyd, yn Atodiad 2.

**Ymatebion ffurfiol**

17. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- RhAG
- Mudiad Meithrin
- Pennaeth Ysgol Gyfun Glantaf a Chadeirydd y Llywodraethwyr
- Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
- Pennaeth Ysgol Mynydd Bychan
- Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Hamadryad
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

18. Ceir copïau llawn o bob un o'r ymatebion ffurfiol a restrir uchod yn Atodiad 3.

19. Roedd yr ymatebion ffurfiol a gafwyd i gyd yn gefnogol i'r egwyddorion a'r weledigaeth a amlinellwyd yn CSCA drafft Caerdydd gyda chydnabyddiaeth gadarnhaol o weledigaeth gadarnhaol ac uchelgeisiol Caerdydd ar gyfer y Gymraeg mewn addysg. Nodwyd bod y camau gweithredu, a’r gwaith o gyflawni'r amcanion a thargedau ac sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun hwn yn gam sylweddol yng nghyd-destun cyfraniad Caerdydd i'r weledigaeth genedlaethol o Gymru sy'n gynyddol ddwyieithog.

20. Cydnabuwyd mai un o gryfderau CSCA drafft Caerdydd yw ei fod yn ddogfen strategol glir a chryno. Roedd y rhanddeiliaid i raddau helaeth yn cefnogi'r egwyddorion allweddol, gan nodi bod y CSCA yn cynnwys llawer o gamau gweithredu perthnasol a chadarnhaol. Fodd bynnag, nododd sawl un y byddai nifer o'r canlyniadau'n gryfach pe bai ychydig

mwy o eglurhad o'r cynnydd presennol, a chyfeiriad at ddata perthnasol. Roedd sawl un yn teimlo y gellid cryfhau'r CSCA ymhellach pe bai rhagor o fanylion am y camau gweithredu allweddol ac roedd angen rhagor o fanylion ac eglurhad ar Ganlyniad 2 sydd wedi'i adlewyrchu yn y fersiwn drafft terfynol sydd ynghlwm (Atodiad 1).

21. Roedd yr adborth yn cytuno'n bennaf bod y CSCA drafft yn amlinellu nodau perthnasol gyda'r bwriad o gyrraedd y targedau, ond awgrymwyd y byddai croesgyfeirio'r amcanion yn fanylach at nodau Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog sydd ymhlyg yng nghanlyniadau'r CSCA yn ei gyfanrwydd yn cryfhau effaith gweithredu'r Cynllun a'r cynnydd arfaethedig mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd awydd hefyd i gael esboniad mwy penodol o ran sut y byddai'r cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso. Bydd hyn i raddau helaeth yn ymateb i'r Cynlluniau Gweithredu gyda phob targed yn nodi'n glir pa bartner(iaid) sy'n gyfrifol am weithredu ynghyd â cherrig milltir ac unrhyw adnoddau sydd eu hangen/wedi'u hymrwymo fel y bo'n briodol.

22. Mynegwyd rhwystredigaeth hefyd gan rai ymatebwyr nad yw canlyniadau sydd ymhlyg yn y CSCA yn ddigon pwrpasol a chydlynol wrth gynllunio yn y hirdymor ac awgrymwyd nad yw'r Sir wedi bod yn ddigon rhagweithiol wrth gynllunio i ddatblygu addysg Cyfrwng Cymraeg Caerdydd ar draws y brifddinas hyd yma.

23. Cydnabyddir bod gwahanu'r CSCA drafft a'r ddogfen 'Llwybr Twf' yn gwneud y cysylltiad rhwng y cyd-destun a'r cynnwys presennol o fewn y cynllun yn llai gweladwy. Mae'r ddogfen llwybr bellach wedi'i hatodi gyda chyfeiriadau drwy gydol y cynllun at y cyd-destun perthnasol a'r manylion sydd ar gael ar hyn o bryd ynghyd â dolenni i ddogfennau/gwybodaeth arall sydd ar gael ar-lein sy'n helpu i wella dealltwriaeth.

24. Fel y nodir yn y CSCA, bydd cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu datblygu sy'n deillio o'r strategaeth gymeradwy cyn dechrau gweithredu'r CSCA ym mis Medi 2022. Bydd y rhain yn cynnwys lefel y manylion sy'n angenrheidiol er mwyn ei weithredu'n effeithiol yn ymarferol. Bydd hyn yn cefnogi cydweithio effeithiol fel bod pob parti yn glir o ran ei gyfrifoldebau ac yn atebol am ei gyfraniadau tuag at gyflawni'r camau gweithredu a nodir. Amlygwyd hyn yn yr adran 'Camau Nesaf'.

25. Bydd unrhyw gynigion sy'n gofyn am newid sefydliadol i ysgolion a/neu fuddsoddiad cyfalaf yn amodol ar sicrhau ffrydiau ariannu perthnasol (Cyfalaf Cymru, Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, CDLl) a bwrw ymlaen drwy brosesau ymgynghori statudol. Os na fydd cyllid neu gytundeb i fynd ymlaen i weithredu newid sefydliadol yn cael ei sicrhau o fewn yr amserlen ddynodedig, gallai hyn arwain at ailbroffilio camau gweithredu o fewn y cynllun.

26. At hynny, cydnabyddir, o ystyried y cyd-destun ehangach y mae'r CSCA hwn yn cael ei baratoi ynddo, y disgwylir amrywiaeth o newidiadau a gwybodaeth/canllawiau pellach ar lefel genedlaethol a lleol dros y 18 mis i 2 flynedd nesaf a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar weithredu'r cynllun yn ymarferol. Felly, rydym yn disgwyl adolygu a chryfhau'r camau a nodir

o dan ganlyniadau yn ôl yr angen ar ôl derbyn diweddariadau o'r fath. Os bydd angen newidiadau, byddai cynllun diwygiedig yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo fel y nodir yn Rheoliad 8 ac yna caiff ei ailgyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Adborth a gafwyd drwy'r arolwg ar-lein**

27. Ceisiwyd safbwyntiau rhanddeiliaid â diddordeb drwy arolwg ar-lein. Ceir crynodeb o arolwg y rhanddeiliaid ynghyd ag enghreifftiau o'r safbwyntiau a fynegwyd yn Atodiad 4.

28. Ymatebodd cyfanswm o 584 i'r arolwg ehangach i randdeiliaid gyda lefel eang o gefnogaeth i'r egwyddorion a nodwyd yn y cynllun. Cafwyd ymatebion o bob rhan o Gaerdydd, mwy o rai ardaloedd nag eraill. Mae dadansoddiad llawn o'r gwahanol grwpiau a ymatebodd wedi'i nodi yn yr adroddiad

29. Ni wnaeth yr holl ymatebwyr ateb pob cwestiwn na gwneud sylwadau ar y cynnwys o fewn pob un o'r saith canlyniad. Fodd bynnag, roedd mwyafrif o 60% neu fwy yn cefnogi'r cwestiynau a/neu'r camau gweithredu o dan bob canlyniad.

30. Nododd lleiafrif o'r ymatebion nad oeddent yn cytuno â dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch twf y Gymraeg a'r buddsoddiad cysylltiedig yn yr agenda hon. O ganlyniad, roedd yr ymatebion a ddilynodd gan y lleiafrif hwn ynghylch cynnwys y CSCA a'r camau gweithredu arfaethedig i gynyddu faint o Gymraeg a addysgir ac a siaredir, yn gyson â'u gwrthwynebiad i'r cyfeiriad polisi cenedlaethol. 6

31. O'r 584 o bobl a ymatebodd i'r arolwg, roedd y rhan fwyaf (66.4%) yn Rhieni/Gwarcheidwaid. Yn dilyn hyn oedd staff yr ysgol (27.5%) ac aelodau'r gymuned (16.7%).

32. Roedd dros ddwy ran o bump o'r ymatebwyr i'r arolwg yn siaradwyr Cymraeg gyda thua un o bob pedwar yn ymateb i ddweud eu bod yn dysgu Cymraeg. Ymatebwyr o Leiafrifoedd Ethnig oedd fwyaf tebygol o fod yn ddysgwyr Cymraeg (39.5%), ac yna'r rhai a nodwyd eu bod yn anabl (31.8%).

33. Mae gan fwyafrif helaeth o'r rhai a ymatebodd (80.1%) blant, nododd bron i ddwy ran o dair fod eu plentyn yn gallu siarad Cymraeg. Roedd tri o bob pump o rieni yn cytuno â gweithredoedd y Cyngor ynghylch yr angen i hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar addysg Cyfrwng Cymraeg fel ffordd o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

34. Pan ofynnwyd i randdeiliaid pa ganlyniad oedd o'r pwys mwyaf o ran cefnogi nifer gynyddol o bobl sy'n teimlo'n hyderus i siarad a defnyddio'r Gymraeg, barnwyd mai cynyddu'r gweithlu Cymraeg rhugl i gefnogi'r gwaith o addysgu'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg oedd y pwysicaf i'r rhai a ymatebodd.

35. Dilynwyd hyn gan gynyddu nifer y plant oedran meithrin sy'n derbyn eu haddysg mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn drydydd roedd angen edrych y tu hwnt i'r dysgu ffurfiol am gyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

36. Ystyriwyd mai'r thema â’r lleiaf o gefnogaeth oedd yr angen i flaenoriaethu sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymhwyster asesedig yn y Gymraeg.

37. Gwelwyd lefelau cryf o gefnogaeth (65%) ar gyfer ymgysylltu â rhieni a’u helpu gydag ystod gynhwysfawr o wybodaeth i'w cefnogi i wneud dewisiadau ynghylch addysg eu plant.  Dywedodd dros dri chwarter y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod wedi dechrau meddwl am addysg eu plentyn cyn neu'n fuan ar ôl i'w plentyn gael ei eni.

38. Roedd bron i ddwy ran o dair o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r angen i gynyddu nifer y plant sy'n mynd i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn y dosbarth derbyn fel dull allweddol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

39. Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr wrthym eu bod wedi ystyried cyfrwng Cymraeg i'w plant o gymharu â chyfartaledd o 15.6% ar draws y ddinas. Fodd bynnag, dywedodd 16% wrthym eu bod wedi ystyried anfon eu plant i ysgol Gymraeg, ond eu bod wedi dewis peidio yn y pen draw. Roedd y prif resymau a nodwyd dros hyn yn gysylltiedig â bod dim Cymraeg yn y cartref a phryder na fyddent yn gallu cefnogi eu plant ac yna teimlwyd nad oedd unrhyw fantais i ddewis yr iaith ac yn drydydd roedd y ddarpariaeth agosaf yn rhy bell o'u cartrefi.

40. Wrth ystyried y ffactorau allweddol ar gyfer dewis cyfrwng Cymraeg, y prif resymau gan rieni oedd eu bod yn teimlo bod bod yn ddwyieithog yn fanteisiol, roeddent am i'w plentyn garu'r iaith ac roeddent am i'w plentyn allu siarad Cymraeg.

41. Mae'r rhain gyda'i gilydd yn atgyfnerthu’r pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth y CSCA i gynyddu nifer y plant sy'n ymgymryd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r angen i gynnal ymchwil ehangach i ddeall pryderon allweddol sy'n atal hyn, beth fyddai'n eu lleddfu a hyrwyddo’r iaith i ddarpar rieni a rhieni newydd i helpu mwy o bobl i deimlo'n hyderus i ddewis Cymraeg ar gyfer eu plant fel y nodir yng Nghanlyniad 1 a 2.

42. Roedd ychydig o dan 75% o'r ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiynau ynghylch pwysigrwydd cadw dysgwyr wrth iddynt bontio drwy'r gwahanol gyfnodau addysg yn cytuno bod hyn yn flaenoriaeth bwysig a bod lle i ddefnyddio Trochi Cymraeg dwys i gefnogi hyn.  Mae hyn yn cyd-fynd â'r pryderon allweddol a fynegwyd gan rieni nad oeddent yn dewis addysg Gymraeg am eu bod yn ansicr y gallent gefnogi addysg eu plentyn gartref.  Mae hyn yn atgyfnerthu elfen y cynllun sy'n rhoi sicrwydd bod cymorth ar gael i wella caffael iaith pan fo angen, ynghyd ag ystod o fecanweithiau i atgyfnerthu'r wybodaeth sydd ar gael i gynnwys rhieni'n effeithiol fel bod pawb yn teimlo eu bod yn gallu dewis cyfrwng Cymraeg yn hyderus.

43. O'r 584 o ymatebwyr, dewisodd 183 roi sylwadau ychwanegol y tu allan i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr arolwg. Rhannwyd y rhain yn 24 prif thema. O'r rhain, y farn fwyaf cyffredin a fynegwyd gan 24% o'r grŵp hwn oedd pwysleisio pwysigrwydd dewis personol a mynegodd bryder ynghylch plant yn cael eu 'gorfodi' i ddysgu/defnyddio'r Gymraeg. Dilynwyd hyn gan bryderon bod y dull yn cael ei ystyried yn 'ymrannol' ac nid yn flaenoriaeth o ran adnoddau cyhoeddus. Yn groes i hyn, nid oedd 12% yn teimlo bod y cynllun wedi mynd yn ddigon pell a hoffent fod wedi gweld uchelgais pellach gydag ychydig dros 3% yn mynd mor bell ag awgrymu y dylai pob ysgol fod yn un cyfrwng Cymraeg.

**Barn Plant a Phobl Ifanc – 'Sgwrs Fawr y Gymraeg'**

44. Er mwyn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ysgolion Caerdydd ynglŷn â'r blaenoriaethau yn y CSCA a sut yr oeddent yn meddwl y gallem weithio i gyrraedd y targedau allweddol a chynyddu nifer y bobl sy'n hyderus i siarad a defnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdydd dros y ddeng mlynedd nesaf, hwylusodd swyddogion ymgynghoriad ar ffurf arolwg ar-lein o'r enw 'Sgwrs Fawr y Gymraeg'.

45. Gwahoddwyd pob ysgol ar draws y ddinas i gymryd rhan yn y sgwrs drwy ateb cwestiynau ar lwyfan o'r enw Mentimeter. Roedd y dull hwn yn caniatáu adborth ar unwaith lle mae'r canlyniadau'n cael eu diweddaru'n fyw gyda disgyblion yn gallu gweld y trosolwg o atebion gan yr holl ysgolion a oedd yn cymryd rhan. Cynhaliwyd sesiynau byw yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer ysgolion cynradd drwy gydol y dydd a rhoddwyd arolwg i ddisgyblion uwchradd y gallent ei gwblhau yn eu hamser eu hunain gydol y dydd.

46. Yn gyffredinol, derbyniwyd 2,656 o ymatebion gan 27 o ysgolion ledled y ddinas gan gynnwys 8 ysgol cyfrwng Cymraeg, 18 ysgol cyfrwng Saesneg ac 1 ysgol ddwy ffrwd. Cymerodd 16 ysgol uwchradd allan o’r 18 yng Nghaerdydd ran ynghyd â 12 o'n hysgolion cynradd gyda disgyblion yn rhoi eu barn ar y Gymraeg o fewn yr addysg a gânt. Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion a gafwyd yn Atodiad 5.

47. Ymatebodd y disgyblion yn dda i'r arolwg ac roeddent yn awyddus i rannu eu barn ar y Gymraeg a sut i gyrraedd targed Cymraeg 2050 sef miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r amrywiaeth eang o ymatebion a gafwyd yn adlewyrchu'r gwahaniaethau sydd ym mhrofiadau cyfranogwyr o ran bywyd a brofwyd.

48. Wrth flaenoriaethu pwysigrwydd rhesymau dros siarad Cymraeg, roedd disgyblion ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol o nodi cyfleoedd cyflogaeth fel prif flaenoriaeth. Roedd y rhai a atebodd yr arolwg yn Saesneg yn fwy tebygol o flaenoriaethu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol fel y ffordd fwyaf defnyddiol o dyfu'r Gymraeg yng Nghaerdydd tra bod y rhai mewn sesiynau Cymraeg yn fwy tebygol o nodi mai mynychu ysgolion Cymraeg oedd y cyfleoedd mwyaf defnyddiol.

49. Roedd yn amlwg bod gan ddisgyblion uwchradd a chynradd safbwyntiau gwahanol ynghylch pam mae'r Gymraeg yn bwysig iddynt hwy a'r manteision canfyddedig o ddysgu'r iaith. Byddai gwaith dilynol i sicrhau gwell dealltwriaeth o bosibl yn cefnogi cadw disgyblion ar adegau pontio a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis parhau i astudio yn y Gymraeg y tu hwnt i lefel TGAU.

50. Rhoddodd y disgyblion amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch sut i wella'r cyfleoedd i siarad Cymraeg y tu hwnt i ddysgu ffurfiol mewn ysgolion. Maent yn rhoi pwyslais ar weithgareddau sy'n hwyl ac yn ddifyr gyda rhywbeth at ddant pawb. Roedd llawer yn hoffi'r cyfleoedd presennol, yn enwedig yn y celfyddydau perfformio a chwaraeon er nad oedd pawb yn teimlo bod y rhain yn hawdd eu cyrraedd ym mhobman ac roedd llawer llai o ddisgyblion yn y sesiynau Saesneg yn dweud eu bod yn mynd i ddysgu anffurfiol neu gyfleoedd y tu allan i'r ysgol i ddysgu Cymraeg o gymharu â'r rhai a fynychodd y sesiynau Cymraeg. Byddai hyn hefyd yn elwa ar ymchwil bellach ynghylch pam a beth allai annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y dyfodol.

**Crynodeb**

51. I grynhoi, mae'r CSCA drafft a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgynghori wedi'i gymeradwyo'n fras fel dogfen 'strategol' a chyffredinol effeithiol. Bydd rhagor o fanylion a chynlluniau gweithredu i alluogi gweithredu'r camau isod yn deillio o'r strategaeth gymeradwy cyn ei gweithredu yn rhan olaf 2022. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn rhoi mwy o fanylion yn nodi cerrig milltir, dangosyddion llwyddiant, partneriaid sy'n cydweithio i gyflawni targedau a bennwyd ynghyd â gwybodaeth am fonitro a gwerthuso i gefnogi gwaith partneriaeth ac atebolrwydd ar y cyd.

52. Ar gyfer pob canlyniad byddwn yn:

- Cytuno ar yr ystod o gynrychiolaeth gan swyddogion a rhanddeiliaid i ffurfio is-grŵp i greu cynlluniau gweithredu i yrru’r gwaith hwn yn ei flaen;
- Gosod amserlen ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredu gyda therfynau amser a nifer y cyfarfodydd;
- Ailystyried cwmpas mecanweithiau Gorchwyl a Gorffen er mwyn sicrhau ffocws a sgiliau i gyflawni'r camau;
- Datblygu cynlluniau gweithredu gan gynnwys sicrhau gwaelodlinau cyfredol, mireinio camau gweithredu, diffinio prosesau monitro a gwerthuso;
- Cytuno ar fecanweithiau cyfathrebu ac adrodd i Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd;
- Gweithredu strategaeth gymeradwy a chynlluniau gweithredu cysylltiol ar y cyd â phartneriaid i wireddu'r weledigaeth a nodir; ac
- Adolygu'r cynllun a’r camau gweithredu a gyflawnwyd yn flynyddol gan adrodd yn ôl i'r Fforwm Addysg Gymraeg a Chaerdydd Ddwyieithog

53. Yn ogystal â'r broses adolygu flynyddol a amlinellir uchod, rydym yn bwriadu cynnal proses adolygu ffurfiol ar ôl 2 flynedd ac o bosibl diwygio deilliannau yn ôl yr angen ar ôl derbyn diweddariadau o'r fath. Y rheswm dros hyn yw'r cyd-destun ehangach y caiff y cynllun hwn ei baratoi oddi

mewn iddo. Mae gan yr ystod o newidiadau a gwybodaeth/canllawiau pellach a ddisgwylir dros y 18 mis i 2 flynedd nesaf y potensial i effeithio ar y camau gweithredu a sut y cânt eu cyflawni[1]. Os bydd unrhyw dargedau ychwanegol yn cael eu hychwanegu neu os caiff y rhai a nodir eu diwygio, byddwn yn cyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru fel y nodir yn Rheoliad 8.

54. Wrth gyflwyno CSCA Caerdydd diwygiedig 2022-31, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1, mae'r Cyngor wedi ystyried yn ofalus yr holl adborth gan randdeiliaid ac mae diwygiadau wedi'u gwneud yn unol â hynny. Er bod sefyllfa strategol y papur a llawer o'r ymrwymiadau a gyflwynwyd yn cael eu cefnogi'n gyffredinol, rhoddwyd rhywfaint o sylw i agweddau ar y cynllun er mwyn rhoi ychydig mwy o eglurder. Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth ac mae hyn wedi'i darparu lle bo hynny'n bosibl.

55. Mae'r Cyngor wedi ceisio cydbwyso amcanion strategol strategaeth 10 mlynedd yn erbyn ymrwymiadau y gellir eu cyflawni'n briodol. Wrth wneud hynny, mae wedi cyflwyno'r rhain yn y cyd-destun cenedlaethol y disgwylir iddo ddatblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn ymwneud â pholisïau ac ystadegau cenedlaethol.

56. Bydd unrhyw gynigion sydd wedi'u hamlinellu o fewn yr ymrwymiadau sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf hefyd yn amodol ar sicrhau ffrydiau ariannu perthnasol (Cyfalaf Addysg Gymraeg, Ysgolion yr 21ain Ganrif, CDLl). Os na sicrheir cyllid o fewn yr amserlen ddynodedig, gallai hyn arwain at ailbroffilio o fewn y cynllun yn unol â'r strwythur adolygu a amlinellir uchod.

57. Mae'r eglurhad hwn, ynghyd ag esboniad pellach ynghylch sut y caiff y strategaeth hon ei datblygu drwy baratoi cynlluniau gweithredu manwl yn golygu bod CSCA diwygiedig 2022-31 bellach yn addas at y diben o ddarparu'r cyfeiriad strategol sydd ei angen i fwrw ymlaen â'r newid a ddymunir er mwyn sicrhau y gall pawb yng Nghaerdydd gael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

## Ymgynghoriad Aelodau Lleol (lle bo hynny'n briodol)

58. Mae'r CSCA yn ddogfen bolisi strategol. Ymgynghorwyd â phob Aelod fel rhan o'r broses hon.

## Ystyriaethau Craffu

59. Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (PPhI) wedi derbyn cyflwyniad o'r cynnwys allweddol a lywiodd sail i'r CSCA drafft ar 21 Medi 2021. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad a'r drafft terfynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu PPhI ar 22 Chwefror cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet a chyn ei gyhoeddi'n derfynol.

---

[1] Nodi'r canllawiau a'r hyn a ddisgwylir

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

60. Cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi, ymgynghori ar, a chyhoeddi CSCA Awdurdod Lleol 2022-2031.

**Goblygiadau Ariannol**

61. Y rheswm dros yr adroddiad hwn yw nodi'r ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft a cheisio caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno'r CSCA terfynol. Ar hyn o bryd ni fyddai hyn yn arwain at ymrwymiad o wariant cyfalaf ac ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

62. Bydd unrhyw waith ychwanegol i ysgolion presennol neu ysgolion newydd neu wariant a wneir o fewn y gyfarwyddiaeth Addysg o ganlyniad i'r CSCA yn gofyn am gynnal gwerthusiad ariannol llawn er mwyn rhoi sicrwydd o fforddiadwyedd o fewn y rhaglen cyfalaf addysg neu dalu amdano o ddyraniadau'r adnoddau presennol.

**Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)**

Dyletswydd Cydraddoldeb

63. Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sy'n benodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru). Mae'r dyletswyddau yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i (1) gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, (2) hybu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail y nodweddion a ddiogelir. Y nodweddion gwarchodedig yw: oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil - gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred.

64. Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (WG42004 Cymru Fwy Cyfartal, Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 (llyw.cymru) a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

65. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff cyhoeddus â'r nod o geisio cyflawni 7 nod llesiant cenedlaethol Cymru – Cymru sydd yn ffyniannus,

yn wydn, iachach, mwy cyfartal, a chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.

66. Wrth arfer ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, mae'r Cyngor wedi gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio i wneud y gorau o'i gyfraniad i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Nodir yr amcanion lles yng Nghynllun Corfforaethol Caerdydd ar gyfer 2021-24. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion lles. Golyga hyn y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried sut y bydd y penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion lles a rhaid iddynt fod yn fodlon bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

67. Mae'r ddyletswydd lles hefyd yn gofyn i'r Cyngor weithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r egwyddor yn mynnu bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Yn syml, golyga hyn fod gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor:

- Edrych i'r hirdymor;
- Canolbwyntio ar atal trwy ddeall gwreiddiau problemau;
- Cyflawni ymagwedd integredig i gyflawni'r 7 nod lles cenedlaethol;
- Gweithio mewn cydweithrediad ag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy;
- Cynnwys pobl o bob rhan o'r gymuned mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

68. Rhaid i'r person sy'n gwneud penderfyniad fod yn hyderus bod y penderfyniad arfaethedig yn unol â'r egwyddorion uchod; a rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i'r Canllawiau Statudol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru, y mae modd eu gweld ar y ddolen isod: https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy

Cyffredinol

69. Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon bod y penderfyniad yn unol â'r polisi ariannol a chyllidebol.

70. Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn ystyriol hefyd, wrth benderfynu, o rwymedigaethau ehangach y Cyngor dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

**Goblygiadau AD**

71. Er mwyn cyflawni'r strategaeth 10 mlynedd hon, bydd angen gweithlu digon medrus sy'n gallu dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y ddinas.

72. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn parhau i gefnogi Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu cyfrwng Cymraeg i fynd i'r afael ag unrhyw heriau recriwtio y gallant ddod ar eu traws, yn benodol o ran cynllunio ac agor ysgolion newydd ac ehangu'r ddarpariaeth mewn eraill. Bydd cyngor hefyd yn parhau i fod ar gael ynghylch cynllunio'r gweithlu a strwythurau staffio ysgol gyfan.

73. Wrth i'r Cyngor barhau i gynyddu darpariaeth y Gymraeg ar draws ein hysgolion, bydd Gwasanaethau Pobl AD yn parhau i weithio gyda'r gyfarwyddiaeth Addysg a phartneriaid i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu presennol ac yn y dyfodol i ddiwallu anghenion ysgolion yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r amrywiaeth gynyddol o fewn y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.

## Goblygiadau Eiddo

74. Bydd Ystadau Strategol yn cefnogi cydweithwyr Addysg ar unrhyw ofynion tir ac eiddo i gefnogi'r Cynllun hwn. Os oes angen unrhyw drafodion neu brisiadau tir sy'n deillio o hynny i gyflawni unrhyw gynigion, dylid gwneud hynny yn unol â phroses Rheoli Asedau'r Cyngor ac mewn ymgynghoriad ag Ystadau Strategol a meysydd gwasanaeth perthnasol.

## Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

Cyd-destun Polisi Trafnidiaeth

75. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gyflawni amrywiaeth o brosiectau trafnidiaeth trawsnewidiol er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, llygredd aer ac effeithiau andwyol dibyniaeth ar geir ar iechyd pobl.

76. Targed y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yw sicrhau rhaniad 50:50 rhwng siwrneiau ceir a rhai ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2026.

77. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn gosod targed newid moddol llawer mwy uchelgeisiol ac mae'n ceisio sicrhau fod dros 60% o deithiau gwaith dyddiol i gael eu gwneud drwy ddulliau teithio cynaliadwy erbyn 2025 gyda'r gyfran hon yn cynyddu i tua 75% erbyn 2030.

78. Er mwyn cyrraedd y targed hwn bydd angen newidiadau i'r ffordd y mae plant yn teithio i'r ysgol.

79. Mae teithio i'r ysgol yn creu pwysau sylweddol ar rwydwaith trafnidiaeth Caerdydd. Mae 30% o'r holl deithiau ceir yn ystod oriau brig y bore yn deithiau i'r ysgol. Gwneir tua 40,000 o deithiau mewn car i'r ysgol bob dydd yng Nghaerdydd.

80. Mae llawer o deithiau i'r ysgol yn fyr iawn: mae 75% o siwrneiau i addysg yng Nghaerdydd o fewn 3km i gartrefi pobl. Gellai mwy o'r teithiau hyn

gael eu gwneud drwy ddulliau llesol os yw pob ysgol wedi'i chysylltu'n dda â'u dalgylchoedd drwy lwybrau teithio llesol diogel a chyfleus.

81. Mae’r Papur gwyn Trafnidiaeth yn cynnwys yr ymrwymiad i “Ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol a llwybrau cerdded a beicio hygyrch ar gyfer pob ysgol drwy weithio gyda phlant, athrawon, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo cerdded, sgwtera a beicio nôl a blaen i’r ysgol;

<u>Pellteroedd teithio</u>

82. Nodir bod y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn hirach nag i ysgolion Saesneg sydd yn nes at ei gilydd ac sydd â dalgylchoedd llai.

83. Gallai cyflawni’r targedau CSCA o weld disgyblion a addysgir mewn ysgolion Cymraeg yn cynyddu o 18% yn 2021 i 25-29% yn 2032 olygu y gallai fod angen mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a gweld rhai ysgolion Saesneg yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg. Gyda chynnydd yn nosbarthiad ysgolion Cymraeg, gallai'r pellter teithio cyfartalog i ysgolion cyfrwng Cymraeg leihau, gyda chynnydd cyfatebol yn y pellter teithio cyfartalog i ysgolion cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, gall teithio cyfartalog cyffredinol i bellteroedd ysgol gynyddu oherwydd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion Saesneg.

<u>Teithio gan Ddysgwyr</u>

84. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i’r CSCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi sut y bydd yn hyrwyddo mynediad i addysg o ran cludiant i ddysgwyr. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried effaith polisïau cludiant ysgol a allai gael effaith andwyol ar gyfraddau trosglwyddo mewn ysgolion Cymraeg.

85. Mae Cyngor Caerdydd yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion Cymraeg sydd o oed ysgol statudol (5 i 16) sy'n byw 2 filltir neu fwy yn yr oed cynradd, neu 3 milltir neu fwy yn yr oed uwchradd, (wedi'i fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf sydd ar gael) o'u hysgol dalgylch briodol agosaf ar gyfer eu cyfeiriad cartref.

86. Mae polisi cludiant presennol Cyngor Caerdydd o'r cartref i'r ysgol yn nodi bod 4 categori/math o ran yr ysgol briodol agosaf. Sef:-
    i. Yr Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg agosaf;
    ii. Yr Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg agosaf;
    iii. Ysgol agosaf yr Eglwys yng Nghymru; ac
    iv. Yr Ysgol Gatholig agosaf.

87. Yn unol â pholisi presennol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n byw mwy na'r pellteroedd cerdded statudol o'u hysgol Gymraeg ddalgylch briodol agosaf, heb ystyried a oes ysgol Saesneg neu ysgol Ffydd agosach.

88. Pan agorir ysgolion newydd a bod dalgylchoedd yn cael eu dynodi ar gyfer pob math/categori o ysgol, mae Caerdydd yn cymhwyso'r un

egwyddor i bob ysgol gan fod y dalgylch newydd yn berthnasol i bob disgybl sy'n dechrau mewn ysgol o'r mis Medi y mae'r newid yn dod i rym. Mae'r dalgylch newydd hefyd yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ym mhob blwyddyn ddilynol wedi hynny.

89. Gyda'r gostyngiad cyfartalog mewn pellter teithio i'r ysgol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg, disgwylid y ceid gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant i'w hysgol Gymraeg agosaf. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd rhywfaint o gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gymwys i gael cludiant am ddim.

90. Bydd angen ystyried goblygiadau Teithio Dysgwyr unrhyw gynigion ar gyfer ysgolion Cymraeg newydd a throsi ysgolion Saesneg presennol yn rhai cyfrwng Cymraeg yn ofalus ar lefel cynllunio strategol y ddarpariaeth a thrwy bob cam o ddatblygu prosiectau unigol (adeiladau newydd a newidiadau i ysgolion presennol). Bydd hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau cost unrhyw gynnydd yn yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ac effaith polisïau cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor ar fynediad i addysg Gymraeg.

<u>Cynlluniau Teithio Llesol i'r Ysgol</u>

91. Mae'r Cyngor am gynyddu nifer y disgyblion sy'n teithio i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg drwy gerdded a beicio yn hytrach na chael eu gyrru. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

92. Bydd unrhyw ddatblygiadau ysgol newydd neu ehangu safleoedd ysgol presennol sy'n deillio o'r CSCA yn rhoi cyfle i sicrhau bod seilwaith teithio llesol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n briodol fel elfen hanfodol ac annatod o ddyluniad y cynllun.

93. Yn allweddol i hyn fydd sicrhau fod dyluniad a gosodiad yr adeiladau a'r trefniadau mynediad i'r safle yn rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a dulliau teithio cynaliadwy. Elfennau allweddol eraill fydd lleoliad y pwyntiau mynediad mewn safleoedd a fydd yn ystyried aliniad y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau ger llaw ac a fydd yn anelu at gadw pellteroedd cerdded a beicio mor fyr â phosib ac osgoi gwyriadau diangen i bobl yn teithio ar droed ac ar feic. Mae datblygu'r safle newydd arfaethedig yn rhoi cyfle i ddylunio mynedfeydd mewn lleoliadau mwy priodol a chyfleus sy'n gweddu'r hyn y dymunir ei weld.

94. Bydd angen i bob ysgol Gymraeg newydd neu ysgol sydd wedi newid/ehangu i fod yn gyfrwng Cymraeg gael Cynllun Teithio Llesol ar waith o ddechrau eu gweithrediad. Dylai Cynllun Teithio Llesol ar gyfer safle ysgol newydd neu ysgol sydd wedi newid i fod yn Gymraeg gael ei lywio gan Asesiad Trafnidiaeth (ar gyfer adeiladu o'r newydd neu ehangu safle sy'n bodoli eisoes) ac unrhyw Gynllun Teithio Llesol sy'n bod eisoes

a'i ddatblygu gyda chyfranogiad llawn y disgyblion a'r staff a chynnwys disgyblion a staff ym mhoblogaethau'r ysgolion sy'n bwydo, lle bo'n bosibl. Dylai'r Cynllun Teithio Llesol ar gyfer ysgol uwchradd fod yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer yr ysgolion clwstwr lleol. Bydd hyn yn helpu i annog teithio llesol ar draws pob grŵp oedran a sicrhau y bydd pob disgybl sy'n mynd i'r ysgol newydd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gefnogi datblygu Cynllun Teithio Llesol a'i roi ar waith. Gellir cynnig cymorth arall drwy Dîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor sy'n darparu Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol i ysgolion yng Nghaerdydd.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

95. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad y byddai'r CSCA drafft yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg ac na fyddai'n effeithio'n negyddol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei atodi fel Atodiad 3.

96. Bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir i'r Cabinet wneud y canlynol:

(i) Cymeradwyo CSCA 2022-2031 i'w gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru.

(ii) Cymeradwyo cyhoeddi CSCA 2022-2031 ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

(iii) Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar y cyd â'r Fforwm Addysg Gymraeg i gyflawni'r mesurau llwyddiant a nodir yn y strategaeth.

| | |
|---|---|
| **UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**<br><br>Richard Portas | **Enw'r Cyfarwyddwr**<br><br>Melanie Godfrey |
| | Dyddiad cyflwyno i swyddfa'r Cabinet |

*Atodir yr atodiadau canlynol:*
Atodiad 1: CSCA Caerdydd 2022-2031
Atodiad 2: Crynodeb o'r materion a godwyd a dadansoddi ymatebion
Atodiad 3: Ymatebion ffurfiol yn llawn
Atodiad 4: Adroddiad Cryno ar yr Arolwg Cyhoeddus

Atodiad 5:	Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad Disgyblion 'Sgwrs Fawr y Gymraeg'
Atodiad 6:	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Rhoddwyd ystyriaeth i'r papurau cefndir canlynol:*

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Ionawr 2021.